# Rhaglen Gyflawn Gyhoeddus

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

**Y CYNGOR LLAWN**

**EITEM 8 – CWESTIYNAU**

**MAI 14EG, 2026**

Mae'r dudalen yma'n fwriadol wag.

**EITEM 8 – CWESTIYNAU**

**Cwestiynau gan Aelodau Etholedig**

1. **Cwestiwn y Cynghorydd Jina Gwyrfai**
   Mater o bryder i lawer ohonom yw'r cynnydd amlwg yn nifer dysgwyr yn ein hysgolion sy'n cael eu diarddel oherwydd ymddygiad annerbyniol, peryglus neu'n fygythiol. Serch hynny, mae'n statudol bod pob plentyn yn derbyn addysg hyd at 16 oed. Rhywbeth dros dro yw diarddel i fod, felly, ac y mae amrywiaeth o strategaethau gan yr Adran Addysg- ar y cyd efo Asiantaethau eraill- i ddelio gyda'r dysgwyr hyn, a'r nod o alluogi'r dysgwyr i ddychwelyd i ysgol a pharhau i dderbyn addysg a fydd yn eu harfogi i'r dyfodol.

   A fedrwch amlinellu'r holl strategaethau sydd ar gael yng Ngwynedd i ddelio gyda'r bobl ifainc hyn; a hefyd darparu data i ddangos a) faint yw'r broblem, a b) pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth bresennol ?

   **Ateb yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Dewi Jones**
   Diolch am y cwestiwn.

   Mae'r cynnydd mewn ymddygiad heriol ac annerbyniol mewn ysgolion yn destun pryder gwirioneddol i ni i gyd, ac mae'n bwysig dweud ar y dechrau fod ysgolion Gwynedd yn wynebu'r un heriau cymhleth ag sydd i'w gweld ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.

   Er hynny, mae'n bwysig cofio hefyd mai nifer gymharol fach o ddysgwyr sydd yn gyfrifol am y digwyddiadau mwyaf difrifol, ac mae ysgolion, gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid yn gweithio'n galed iawn i geisio cefnogi'r bobl ifainc hyn tra hefyd yn diogelu staff a dysgwyr eraill.

   Fel y soniwyd yn y cwestiwn, nid yw gwaharddiad i fod yn ateb parhaol. Mae gan bob plentyn hawl statudol i addysg hyd at 16 oed ac felly mae'n rhaid i ni sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael hyd yn oed pan fo dysgwr yn methu ymdopi mewn lleoliad ysgol prif lif neu pan nad yw ysgol prif yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn.
   O ran y data, mae'r darlun diweddaraf yn dangos gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

   Mae nifer y gwaharddiadau parhaol wedi gostwng o 37 yn 2024/25 i 19 hyd yma yn 2025/26.

   Mae gwaharddiadau cyfnod penodol hefyd wedi gostwng o 749 i 664.

   Er bod hynny'n galonogol, mae natur yr achosion rydym yn eu gweld yn llawer mwy cymhleth nag oeddent ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae mwy o ddysgwyr yn wynebu problemau iechyd meddwl, anawsterau rheoleiddio emosiynol, trawma, gorbryder a diffyg ymgysylltiad ag addysg draddodiadol.

Er mwyn ymateb i hyn, mae'r Adran Addysg, ar y cyd gydag ysgolion ac asiantaethau partner, wedi datblygu ystod o strategaethau a darpariaethau.
Mae gennym ddarpariaeth amgen a gwaith ymestyn allan sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu heithrio o addysg. Ar hyn o bryd mae 220 o achosion ar agor i'r gwasanaeth cynnal ymddygiad, gyda 38 achos newydd wedi agor eleni a 42 wedi cau oherwydd cynnydd cadarnhaol.

Mae'r ddarpariaeth 12 wythnos yng Nghanolfan Nantlle (Llechen Lân - sydd yn ddarpariaeth i blant blwyddyn 5 - 7) yn cynnig cyfnod dwys o gefnogaeth ac ailsefydlu i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio'n llwyr o addysg. Mae 17 o ddisgyblion wedi manteisio ar y ddarpariaeth hon yn ystod y flwyddyn.

Mae rhaglen Camu i'r Copa yn Llanwnda yn cefnogi dysgwyr hŷn drwy ddarparu amgylchedd llai, mwy strwythuredig ac ymarferol gyda ffocws ar ail-ymgysylltu â dysgu. Mae 9 dysgwr yn rhan o'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd. Mae'r disgyblion yma yn hŷn ac fel arfer yn y ddwy flynedd olaf o addysg uwchradd.

Yn ogystal â hynny, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyrsiau galwedigaethol, gweithgareddau ymarferol, sesiynau therapiwtig a chyrsiau achrededig sy'n helpu rhai dysgwyr i ailgysylltu ag addysg mewn ffordd fwy addas iddynt.

Mewn rhai achosion, defnyddir amserlenni rhan-amser fel cam dros dro er mwyn ailsefydlu presenoldeb a lleihau'r risg o ymddygiad peryglus neu orbryder.

Mae swyddogion cefnogi teulu a chymuned hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda rhai o'r teuluoedd mwyaf bregus er mwyn cryfhau perthnasoedd, gwella presenoldeb a chefnogi sefydlogrwydd.

Ar yr un pryd, rydym yn cryfhau'r gwaith aml-asiantaethol rhwng addysg, iechyd, gwasanaethau plant, iechyd meddwl, gwasanaethau ieuenctid a chyfiawnder ieuenctid oherwydd mae'n glir nad mater addysgol yn unig yw hwn.

Mae nifer o'r problemau ymddygiad mwyaf difrifol yn gysylltiedig â ffactorau cymdeithasol ehangach megis tlodi, trawma, problemau iechyd meddwl a phwysau ar deuluoedd.

O ran effeithiolrwydd y ddarpariaeth, rydym yn gweld rhai arwyddion positif. Mae lefelau gwaharddiadau wedi gostwng, mae nifer sylweddol o achosion wedi cau oherwydd cynnydd, ac mae mwy o ddysgwyr yn parhau mewn addysg neu ddarpariaeth yn hytrach nag ymddieithrio'n llwyr.

Fodd bynnag, mae'n rhaid bod yn realistig hefyd. Mae'r heriau hyn yn sylweddol ac mae nifer fach o ddysgwyr yn parhau i gyflwyno ymddygiad sy'n peri risg difrifol i staff, dysgwyr eraill ac iddynt eu hunain.

Felly, bydd yr Adran Addysg yn parhau i fuddsoddi mewn ymyriadau cynnar, darpariaeth arbenigol a gwaith aml-asiantaethol er mwyn gwneud ein gorau i sicrhau bod ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd yn cael cefnogaeth briodol ac nad oes unrhyw ddysgwr yn cael ei adael heb addysg.

**2. Cwestiwn y Cynghorydd Rhys Tudur**

Mae Cymdeithasau Tai yn ddiweddar wedi cael neu yn ceisio caniatâd am godi nifer o dai di gynsail mewn ceisiadau unigol ym mhentrefi Dwyfor, Botwnnog (18), Trefor (20), Nefyn (20), Chwilog (25), Ffor (27), Abererch (24), a hynny yng ngwyneb gwrthwynebiad lleol o ddatblygiadau sydd tu hwnt i raddfa sy'n addas i faint y pentrefi ac sy'n dyblu nifer y tai cymdeithasol yno dros nos ac yn her i hyfywedd y Gymraeg. Oes yna unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor yn awr yn gwrando a'u bod ddim yn gwbl glustfyddar i'r lleisiau lleol rheini, yn enwedig pan fo'r cynghorau cymuned wedi gwrthwynebu'r ceisiadau a phan fo deisebau efo dros 150 o enwau wedi eu hel?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**

Mae'n ofynnol fod y pwyllgor cynllunio yn gwneud penderfyniadau o fewn fframwaith gyfreithiol. Golygai hyn ddyfarnu ceisiadau yn unol a'r cynllun datblygu oni bai fod ystyriaethau materol cynllunio yn nodi fel arall. Rhaid hefyd sicrhau fod y canfyddiadau yma yn rhesymol a gyda seiliau tystiolaeth eglur.

Nid yw nifer neu darddiad cefnogaeth neu wrthwynebiad yn ei hun yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Fodd bynnag, rhoddir sylw llawn i ystyriaethau cynllunio perthnasol a ddaw i'r amlwg o sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio, gan gynnwys sylwadau gan y cyhoedd, y Cyngor Cymuned ac ymgynghorai eraill.

Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn rhan allweddol o Gynllun Gweithredu Tai y Cyngor sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet, gyda'r nod o ddatblygu 700 o dai fforddiadwy erbyn diwedd oes y Cynllun 2020/21-2028/29. Mae Gwynedd mewn argyfwng tai, ac mae datblygiadau tai fforddiadwy yn ymateb i angen sylweddol sydd wedi'i adnabod ar draws y sir, gyda 4,107 o unigolion ar y gofrestr dai ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn llwyddo i ddenu oddeutu £13m o grant bob blwyddyn, sy'n galluogi i'r Cyngor roi opsiynau tai i'r rheiny sydd mewn angen cartref trwy gydweithio'n agos gyda'r Cymdeithasau Tai fel rhan o Bartneriaeth Dai lwyddiannus y Cyngor.

**3. Cwestiwn y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Gofynnais yn flaenorol os oedd y Cyngor, yn dilyn y ffaith bod erthygl 4 wedi ei ddiddymu gan lys o ganlyniad i'r hyn sydd wedi ddyfarnu'n gynyrch camarweiniol gan y Cyngor hwn, am ymddiheuro i ymgyrchwyr a fu frwydro mor galed i gael erthygl 4 mewn grym, a ni bu ymddiheuriad. Erbyn hyn, mae'r hawl i'r Cyngor i apelio wedi ei wrthod. A yw'r Cyngor felly o'r diwedd am ymddiheuro i ymgyrchwyr tros erthygl 4,

gwladgarwyr, ieithgarwyr a threthdalwyr, yn dilyn y ffaith bod hi'n nawr yn glir fod diffyg yn y gwaith papur allweddol wedi achosi i Erthygl 4 gael ei ddiddymu a bod arian wedi ei wastraffu am swm o dros hanner miliwn

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**
Fel y gwnes i nodi wrth ateb cwestiwn tebyg iawn gan yr Aelod yng nghyfarfod y Cyngor fis Rhagfyr, rydym yn parhau'n benderfynol i sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at dai addas yn eu cymunedau.

Dyna pam y cyflwynodd y Cyngor Gyfarwyddyd Erthygl 4 – fel rhan o becyn o gamau i reoli effaith sylweddol ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr ar y farchnad dai.

Roedd y penderfyniad hwn wedi ei seilio ar ymdrech sylweddol, gan gynnwys ymchwil fanwl, ymgynghori helaeth a chyngor arbenigol.

Er ein siom gyda'r canlyniad cyfreithiol a'n cais i apelio penderfyniad yr Uchel Lys, rydw i'n grediniol fod ein penderfyniad i gyflwyno Erthygl 4 wedi bod yn gadarn ac yn briodol. Fe wnaeth y Cyngor weithredu'n gyfrifol a didwyll wrth fynd i'r afael â materion sy'n hynod bwysig i ddyfodol ein cymunedau.

Bydd y profiad hwn, gan gynnwys y cyfnod 12-mis y bu Erthygl 4 yn weithredol yn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, yn allweddol wrth i ni benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.